Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Yr Economi Sylfaenol

Ebrill 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
X: **@SeneddEconomi**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Yr Economi Sylfaenol

Ebrill 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Lee Waters AS**
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Paul Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .... **5**

**Argymhellion** .... **6**

**1. Cefndir** .... **9**

**2. Beth yw'r economi sylfaenol?** .... **11**

Diffyg ymwybyddiaeth o beth yw'r economi sylfaenol .... 12

Pa ddiffiniad o'r economi sylfaenol y dylid ei ddefnyddio? .... 13

Defnyddio targedau a dangosyddion .... 14

**3. Rôl Llywodraeth Cymru yn yr economi sylfaenol** .... **17**

Ychwanegiad at y polisi datblygu economaidd presennol neu ddull economaidd amgen? .... 17

Dull mwy hwylus neu ymyriadol .... 19

Gweithio ar draws y llywodraeth .... 21

**4. Cyflawni mentrau'r economi sylfaenol** .... **24**

Effaith ac effeithiolrwydd .... 25

Effaith ffrydiau ariannu penodol .... 26

Cymorth ariannu yn y tymor hwy .... 27

Lledaenu a graddio arfer da .... 28

**5. Caffael** .... **31**

Effeithiolrwydd y dull presennol o gaffael .... 32

Cefnogi busnesau'r economi sylfaenol .... 32

Gwerth cymdeithasol a chaffael .... 34

**6. Gwaith teg a'r economi sylfaenol** .... **38**

Sefydliadau angori yn recriwtio o gymunedau difreintiedig .... 38

Gwella cyflog ac amodau yn yr economi sylfaenol ..... 41

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ..... 45**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 47**

Gwybodaeth Ychwanegol ..... 48

# Rhagair y Cadeirydd

Cafodd yr ymchwiliad hwn ei gynnal yn ystod cyfnod fy rhagflaenydd fel Cadeirydd, Paul Davies AS.

Mae pob un ohonom yn defnyddio’r economi sylfaenol bob dydd, ac mae llawer ohonom yn gweithio ynddi, ond byddai ceisio egluro beth ydyw yn dipyn o her i’r rhan fwyaf o bobl. A dweud y gwir, un o argymhellion allweddol yr adroddiad hwn yw bod rhaid i Lywodraeth Cymru bennu diffiniad clir o’r economi sylfaenol gan ein bod o’r farn y byddai gwneud hyn yn helpu o ran dealltwriaeth y cyhoedd ac o ran datblygu polisi. Mae’r economi sylfaenol yn cynnwys trinwyr gwallt, gweithwyr gofal, a’r bobl sy’n gweithio yn eich siop leol. Dyma’r math o swyddi y byddwch yn eu gweld ym mhob cymuned yng Nghymru, gyda gweithwyr yn yr economi sylfaenol yn darparu gwasanaethau hanfodol i'w ffrindiau a'u cymdogion.

Mae temtasiwn i lywodraethau ganolbwyntio ar bolisi economaidd sy’n cefnogi prosiectau mawr cyffrous a cheisio sicrhau mewnfuddsoddi gan gwmnïau rhyngwladol, ond mae cefnogi’r economi sylfaenol mewn ffordd effeithiol hefyd yn hynod o bwysig. Mae cefnogi a thyfu’r economi sylfaenol yn fodd i fusnesau bach a chymunedau ffynnu. Mae'n helpu i gadw cyfoeth i gylchredeg o fewn cymuned.

Mae’r economi sylfaenol wedi bod yn rhan o ddull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd ers bron i 10 mlynedd. Mae ei chenhadaeth economaidd ddiweddaraf yn ymrwymo i gryfhau'r economi sylfaenol. Er mwyn cyflawni ei nodau a throi uchelgais yn realiti, rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau ymarferol sy’n seiliedig ar dystiolaeth. Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys 10 argymhelliad a fydd yn cefnogi’r nod hwnnw. Mae’r rhain yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i feithrin dull o’r gwaelod i fyny at ddatblygu’r economi sylfaenol, dysgu gwersi a lledaenu arfer da, a gwella’r profiad o wneud cais am gontractau cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig.

Hoffwn ddiolch eto i Paul Davies AS am arwain yr ymchwiliad hwn. Hoffwn ddiolch hefyd i holl Aelodau’r Pwyllgor a’r tystion am eu hamser a’u hymdrechion, sydd wedi galluogi’r Pwyllgor i lunio’r adroddiad hwn a gwneud yr argymhellion pwysig hyn.



**Andrew RT Davies MS**
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r diffiniad deuol a ddatblygwyd gan yr Athro Karel Williams a Chynghrair Sylfaenol Cymru fel sail i'w gwaith ar yr economi sylfaenol. Dylai hefyd weithio gydag ymarferwyr i greu diffiniadau syml, un llinell i gynyddu ymwybyddiaeth o'r economi sylfaenol, a chyfleu'r rhain yn ehangach i sefydliadau. ........................................................................Tudalen 15

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol i hybu dealltwriaeth o'r hyn y mae am ei gyflawni drwy ymyriadau economi sylfaenol. Dylai hefyd gydweithio â phartneriaid i lunio cynllun cyflawni economi sylfaenol sy'n nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru ac eraill yn eu cymryd i gyflawni ei hamcanion...................................................................................Tudalen 16

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o ffocws ar gefnogi dull o'r gwaelod i fyny at yr economi sylfaenol. Fel rhan o'r dull hwn, dylai wneud y canlynol:

- Gweithio gyda phartneriaid i dreialu a gwerthuso 'cynghreiriau y rhai sy'n barod' i gyflawni newid mewn rhai meysydd economi sylfaenol allweddol, gan gynnwys nodi cyfleoedd i dreialu dull gweithredu tebyg i 'skunkworks'.
- Datblygu dulliau llai rhagnodol o ymdrin â chyllid grant sy'n cefnogi arloesedd ac yn grymuso sefydliadau i gyflawni blaenoriaethau cymunedol. ........................................................................................................Tudalen 22

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa wersi y gellid eu dysgu o feysydd polisi trawsbynciol eraill i brif ffrydio dull economi sylfaenol ar draws y llywodraeth, a nodi sut mae'n bwriadu cymhwyso'r gwersi hyn erbyn mis Medi 2025..........................................................................................................................................Tudalen 22

**Argymhelliad 5.** Er mwyn cefnogi camau dysgu, lledaenu a graddio arfer da, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau allweddol yn sgil gwerthusiadau o fentrau economi sylfaenol mewn un lle. Dylid ymgorffori'r rheini, wedyn, yn ei gwaith craffu ar ba mor effeithiol y mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni blaenoriaethau'r economi sylfaenol. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i nodi prosiectau llwyddiannus yr economi sylfaenol y mae'n dymuno eu cynyddu, a nodi ei chynlluniau i wneud hynny............... Tudalen 30

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r modd y bydd yn gwella'r cymorth ariannol tymor hwy sydd ar gael i fentrau llwyddiannus yr economi

sylfaenol, y mae angen cymorth parhaus arnynt. Dylai hyn gynnwys dadansoddi'r modd y gellir defnyddio'r trefniadau twf lleol olynol i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, i gefnogi sefydliadau'r economi sylfaenol. ........................................................................ Tudalen 30

**Argymhelliad 7.** Mewn perthynas â gwella cyfleoedd caffael i fusnesau bach a chanolig yn yr economi sylfaenol, dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau a ganlyn:

- Amlinellu'r modd y bydd yn gweithio gyda phartneriaid i ledaenu a chynyddu arfer gorau i gefnogi busnesau bach a chanolig yr economi sylfaenol ledled Cymru i dendro am gyfleoedd caffael yn y sector cyhoeddus.

- Nodi'r modd mae'n bwriadu defnyddio ei phwerau o dan Dde*ddf Caffael 2023* a *Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023* er mwyn cefnogi mwy o wariant gyda busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, a sefydliadau trydydd sector. ........................................................................................................Tudalen 36

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r modd y bydd yn defnyddio deddfwriaeth gaffael ddiweddar i wneud y mwyaf o werth cymdeithasol caffael ar draws sefydliadau sector cyhoeddus datganoledig. Dylai ddarparu hyfforddiant wedi'i deilwra i staff caffael i'w galluogi i roi hyn ar waith. ...................................Tudalen 36

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau angori mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig i sicrhau bod dulliau 'tyfu eich gweithlu eich hun' yn cael eu datblygu a'u cynyddu ar draws Cymru, gan ddefnyddio dull hyblyg sy'n diwallu anghenion lleol cyflogwyr a chymunedau. ........................Tudalen 44

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau canlynol o fewn ei phwerau datganoledig er mwyn gwella cyflog ac amodau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat:

- Defnyddio llythyrau cylch gwaith i osod gofynion ar gyfer cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y rhain i wella cyflog ac amodau gwaith, a gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu a chytuno ar safonau gofynnol cyffredin ar gyfer cyflog ac amodau gwaith yn y sector cyhoeddus datganoledig.

- Gweithio'n gyflym gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu cynigion cymesur i gefnogi gwaith teg drwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru, a dechrau cyflwyno'r rhain erbyn diwedd 2025. Fel rhan o'r

gwaith hwn, dylai'r Llywodraeth, hefyd, ystyried y modd y gall dull Gwaith Teg yn Gyntaf (*Fair Work First*) Llywodraeth yr Alban lywio datblygiadau yng Nghymru. ........................................................................................Tudalen 44

# 1. Cefndir

Yn ei ymchwiliad, edrychodd y Pwyllgor ar ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r economi sylfaenol, yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn na weithiodd cystal, a'r camau a gymerwyd mewn perthynas â chaffael a gwaith teg.

**1.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor ar gyfer y gwaith hwn oedd edrych ar:

- I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gwreiddio cymorth i'r economi sylfaenol yn y ffordd y mae'n ymdrin yn gyffredinol â datblygu economaidd? Pa gamau pellach y dylai eu cymryd i wneud hyn?
- O ystyried natur drawsbortffolio'r economi sylfaenol, sut y dylai Llywodraeth Cymru greu dull cydgysylltiedig o brif ffrydio cymorth i sectorau'r economi sylfaenol ar draws y llywodraeth?
- Pa rai o fentrau polisi Llywodraeth Cymru ar yr economi sylfaenol sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus, a pham? Pa rai sydd heb weithio cystal, a pham?
- Pa enghreifftiau o arfer gorau sy'n bodoli yng ngwahanol sectorau a lleoedd yr economi sylfaenol yng Nghymru neu'r tu hwnt i Gymru? Sut y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi partneriaid yn well i gyflawni arfer gorau, a'i ehangu lle bo'n briodol?
- Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran defnyddio caffael i gryfhau'r economi sylfaenol ers i'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd edrych ar y mater hwn yn 2019? Pa gamau pellach sydd eu hangen i sicrhau mwy o gynnydd, a pha enghreifftiau arloesol o arfer gorau y gellid adeiladu arnynt?
- Pa mor effeithiol y mae camau gweithredu Llywodraeth Cymru wedi bod i sicrhau gwaith teg yn sectorau'r economi sylfaenol? Pa gamau pellach y dylai eu cymryd o fewn ei phwerau datganoledig i symud yr agenda hon yn ei blaen, a sut y gall weithio gyda Llywodraeth y DU i ysgogi gwelliannau mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli?

**2.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 29 Awst 2024 a 27 Medi 2024, a daeth 22 o ymatebion ysgrifenedig i law. Rhestrir y rhain yn Atodiad 2, ynghyd â thystiolaeth ysgrifenedig arall a gyhoeddwyd yn ystod yr ymchwiliad. Ystyriwyd yr ymatebion a ddaeth i law yn fanwl a buont yn gymorth i lywio dealltwriaeth yr Aelodau o'r materion o bwys, a'u cwestiynau i dystion a roddodd dystiolaeth lafar.

**3.** Clywyd tystiolaeth lafar rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024, lle clywodd y Pwyllgor gan academyddion, busnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector mewn sectorau'r economi sylfaenol. Clywodd dystiolaeth hefyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio. Mae manylion am y tystion a roddodd dystiolaeth lafar wedi'u nodi yn Atodiad 1.

**4.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a rannodd eu hamser a'u harbenigedd gyda ni i helpu i lunio'r darn hwn o waith.

## 2. Beth yw'r economi sylfaenol?

Mae dealltwriaeth gyfyngedig ac anghyson o'r hyn y mae'r term 'economi sylfaenol' yn ei olygu, a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ei gyflawni drwy ganolbwyntio ar y maes hwn.

**6.** Mae'r economi sylfaenol wedi bod yn rhan o ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â datblygu economaidd ers cyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Economaidd ar ddiwedd 2017.[1] Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi ei bwriad i "gryfhau'r economi sylfaenol" yn ei chenhadaeth economaidd ar gyfer 2023.[2]

**7.** Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni mewn perthynas â'r economi sylfaenol. Mae eisiau:

- *cryfhau rhannau sylfaenol yr economi, iddyn nhw allu gwrthsefyll ergydion allanol annisgwyl*
- *helpu busnesau Cymru i fod yn fwy cynhyrchiol trwy fabwysiadu egwyddorion Gwaith Teg a chreu swyddi sy'n gofyn am lefel uchel o sgil*
- *gwella amodau gwaith yn yr economi sylfaenol, gan sicrhau gwaith teg, gwella sgiliau a sicrhau dilyniant gyrfa*
- *cynnal busnesau lleol a'u helpu i dyfu, a chylchredeg yr elw a'r cyfoeth o fewn cymunedau Cymru*
- *gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau'r economi sylfaenol, gan wella lles pobl ledled Cymru*[3]

[1] Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi
[2] Llywodraeth Cymru, Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach
[3] Llywodraeth Cymru, Yr economi sylfaenol

**8.** Fodd bynnag, yn ystod ein hymchwiliad canfuom ddryswch ynghylch beth yw'r economi sylfaenol, a diffyg ymwybyddiaeth o'r term. Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg i'r rhai a welwyd mewn ymchwil diweddar.[4] [5]

## Diffyg ymwybyddiaeth o beth yw'r economi sylfaenol

**9.** Crynhowyd y diffyg ymwybyddiaeth o'r economi sylfaenol gan yr Athro Karel Williams, a ddywedodd:

> *If you actually asked people in public services in Wales to define the foundational economy, I'd be surprised if one in 50 could actually give that one sentence definition.*[6]

**10.** Yn yr un modd, dywedodd yr Athro Joanne Patterson y canlynol wrthym:

> *I've been working with a range of people within local authorities and the social housing sector, mainly people who are on the ground working, and I don't think I've ever heard them mention the words 'foundational economy'. However, I think it's probably more a recognised term for people who are in the decision-making roles within these organisations.*[7]

**11.** Mae'r sylwadau hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau cyfweliadau a gynhaliwyd i lywio astudiaeth gwmpasu ar gyfer Llywodraeth Cymru ynghylch sefydlu academi economi sylfaenol.[8] Yn ôl 80% o'r sawl a gafodd eu cyfweld, nid yw'r economi sylfaenol yn cael ei deall yn dda ar draws sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus. Galwodd tua 75% o'r sawl a gafodd eu cyfweld am i'r economi sylfaenol gael ei chyfleu i ymarferwyr mewn iaith glir, hawdd ei deall.

**12.** Clywodd y Pwyllgor hefyd fod yr economi sylfaenol weithiau'n cael ei gorsymleiddio â'i chymysgu â chysyniadau datblygu economaidd eraill. Tynnodd yr Athro Anne Green sylw at y ffaith bod yr economi sylfaenol yn cael ei

[4] Walpole et al, Astudiaeth cwmpasu a dichonoldeb ar gyfer Academi economi sylfaenol newydd yng Nghymru
[5] Sissons a Green, Facing up to the foundational economy: regional development, public policy and employment in Wales
[6] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 9
[7] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 166
[8] Walpole et al, Astudiaeth cwmpasu a dichonoldeb ar gyfer Academi economi sylfaenol newydd yng Nghymru

defnyddio'n gyfnewidiol â chysyniadau tebyg eraill megis adeiladu cyfoeth cymunedol a thwf cynhwysol.[9]

**13.** Dywedodd Harry Thompson o Cynnal Cymru y canlynol:

> *I think the focus tends to be on procurement. I do think that's something you see a lot. You see that sort of, 'Keeping the Welsh pound in Wales', which I think is helpful and valid, but it does too unduly narrow it.*[10]

**14.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y pryderon hyn, gan ddweud ei bod yn wirioneddol bwysig bod Llywodraeth Cymru yn rhoi eglurder i randdeiliaid ynglŷn â'r economi sylfaenol.[11] Tynnodd sylw hefyd at waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd i wella dealltwriaeth busnesau o'r economi sylfaenol.[12]

## Pa ddiffiniad o'r economi sylfaenol y dylid ei ddefnyddio?

**15.** Clywodd y Pwyllgor amrywiaeth o ddiffiniadau o'r economi sylfaenol wrth gasglu ei dystiolaeth. Y diffiniad y cyfeiriwyd ato amlaf oedd yr un a ddefnyddiwyd gan Gynghrair Sylfaenol Cymru, sy'n cynnwys yr Athro Karel Williams a'i gydweithwyr, ac a gefnogwyd gan Harry Thompson a Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru.[13] [14] Yn eu barn nhw, mae dau ddiffiniad cyflenwol a chywir o'r economi sylfaenol:

> *i. A narrow, descriptive definition of the FE [foundational economy] as the non-tradeable sectors providing basic services like health and care, utilities etc. These sectors have been neglected by those preoccupied with policies for high-tech and tradables but altogether they account for 40% of employment in Wales.*
>
> *ii. A broad, analytic definition of the FE as the conditions of well-being: (a) the three pillars of household liveability (residual income after paying for essentials + access to basic services + social infrastructure) on the demand side; and (b) the stock of capable resourceful firms on*

[9] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 13
[10] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 11
[11] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 131
[12] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 143
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
[14] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 11

> *the supply side; with (c) consumption and production mitigating nature and climate emergency.*[15]

**16.** Crynhowyd y rhain gan yr Athro Williams mewn brawddeg, a ddywedodd ei bod yn ymwneud ag amodau llesiant, sef incwm y cartref ar ôl talu am hanfodion, gwasanaethau fel gofal iechyd ac addysg, a seilwaith cymdeithasol fel clybiau ieuenctid, i gyd o fewn terfynau hinsawdd.[16]

**17.** Clywsom hefyd ddisgrifiadau eraill o'r economi sylfaenol. Disgrifir yr economi sylfaenol gan Uned Ymchwil Economi Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd fel un sy'n ymwneud â segmentau gwahanol o weithgarwch economaidd sy'n ymddangos fel pe baent yn gwasanaethu anghenion dynol sylfaenol penodol.[17] Mae Well-Fed yn ystyried bod yr economi sylfaenol yn fodel 'Economy+'. Dull o wneud busnes a chyflawni mwy o fudd cymdeithasol/amgylcheddol hefyd.[18]

**18.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig cael y disgrifiad clir hwnnw o'r economi sylfaenol, fel bod pobl yn gweithio yn ôl yr un ddealltwriaeth. Nododd hefyd mai un o amcanion yr economi sylfaenol y mae'n ceisio adborth yn ei gylch yw gwella addasrwydd ar gyfer byw aelwydydd drwy godi cyflogau a lleihau cost hanfodion.[19]

**19.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio adborth gan randdeiliaid ar ei diffiniad o'r economi sylfaenol drwy Cynnal Cymru, yn ogystal ag ar ddatganiad cenhadaeth y mae wedi'i ddatblygu.[20]

## Defnyddio targedau a dangosyddion

**20.** Galwodd nifer o dystion ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno dangosyddion, targedau a chynlluniau gweithredu i roi mwy o eglurder ynghylch yr hyn y mae am ei gyflawni drwy ymyriadau economi sylfaenol.

**21.** Dywedodd Iwan Trefor Jones o Adra (cymdeithas dai fwyaf Gogledd Cymru) "nad strategaethau rydyn ni eu hangen, ond cynlluniau gweithredu clir efo milestones, efo KPIs clir, sydd yn adlewyrchu beth rydyn ni'n trio ei gyflawni".[21]

---

[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Sylfaenol Cymru (Saesneg yn unig)
[16] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 9
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig, Uned Ymchwil Economi Cymru, Prifysgol Caerdydd
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig, Well-Fed (Saesneg yn unig)
[19] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 134
[20] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 132
[21] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 185

**22.** Galwodd Banc Datblygu Cymru am i dargedau clir gael eu datblygu ar gyfer yr economi sylfaenol, gan nodi:

> *Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu set glir o dargedau cyfunol ar gyfer yr economi sylfaenol fel sail ar gyfer ymgysylltu a chydweithio systematig. Mae dod ag effeithiau posibl yr amrywiol actorion trawsbortffolio at ei gilydd yn dod ag ymdeimlad o weithredu ar y cyd.*[22]

**23.** Galwodd Dr Gary Walpole am greu nifer fach o ddangosyddion perfformiad allweddol o'r dangosyddion llesiant cenedlaethol. Awgrymodd y gellid cyhoeddi'r dangosyddion hyn fel dangosfwrdd economi sylfaenol er mwyn gallu mesur cynnydd.[23]

**Ein barn ni**

Mae Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran datblygiadau ers i'r economi sylfaenol ddechrau trafodaethau polisi economaidd bron i ddeng mlynedd yn ôl, er enghraifft fel ffordd ddefnyddiol o atal arian rhag llifo allan o Gymru. Fodd bynnag, nid yw'r term 'economi sylfaenol' yn cael ei ddeall yn dda, ac mae angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gael pawb i dynnu i'r un cyfeiriad.

Felly, mae'r ffaith bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod yr angen am ddiffiniad a rennir o'r economi sylfaenol i'w groesawu. Credwn y dylid defnyddio'r diffiniad deuol a amlinellwyd gan yr Athro Karel Williams. Fodd bynnag, bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd weithio gydag ymarferwyr i ddatblygu diffiniadau symlach, un llinell i gynyddu dealltwriaeth, a chyfleu'r rhain yn eang i sefydliadau yn sectorau'r economi sylfaenol.

Mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd amlinellu'n glir sut y bydd yn cyflawni ei nodau economi sylfaenol. Dylai weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gyd-greu cynllun cyflawni sy'n nodi'r camau y bydd sefydliadau'n eu cymryd i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi sylfaenol.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r diffiniad deuol a ddatblygwyd gan yr Athro Karel Williams a Chynghrair Sylfaenol Cymru fel sail i'w gwaith ar yr economi sylfaenol. Dylai hefyd weithio gydag ymarferwyr i greu

[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, Banc Datblygu Cymru
[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Gary Walpole

diffiniadau syml, un llinell i gynyddu ymwybyddiaeth o'r economi sylfaenol, a chyfleu'r rhain yn ehangach i sefydliadau.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol i hybu dealltwriaeth o'r hyn y mae am ei gyflawni drwy ymyriadau economi sylfaenol. Dylai hefyd gydweithio â phartneriaid i lunio cynllun cyflawni economi sylfaenol sy'n nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru ac eraill yn eu cymryd i gyflawni ei hamcanion.

# 3. Rôl Llywodraeth Cymru yn yr economi sylfaenol

Er bod cydbwysedd i'w daro rhwng arweinyddiaeth a grymuso eraill, mae angen i Lywodraeth Cymru symud i ddull mwy o'r gwaelod i fyny at gefnogi'r economi sylfaenol.

## Ychwanegiad at y polisi datblygu economaidd presennol neu ddull economaidd amgen?

**24.** Dywed Cynghrair Sylfaenol Cymru fod y cysyniad disgrifiadol o'r economi sylfaenol, a'r diddordeb mewn caffael wedi cael eu hychwanegu at y polisi datblygu economaidd presennol sy'n canolbwyntio ar dwf gan Lywodraeth Cymru.[24] Mae'n dadlau nad yw hwn yn ddull sydd wedi cael ei ystyried digon, gan fod yr amcan hirdymor o dwf cyflymach bron yn sicr yn anghyraeddadwy ar hyn o bryd ac, os caiff ei gyflawni, byddai'n arwain at gynyddu anghydraddoldebau cymdeithasol ac allyriadau carbon.[25]

**25.** Galwodd Cwmpas am i bolisi economi sylfaenol fod wrth wraidd polisi datblygu economaidd, ac i beidio â chael ei weld fel rhan benodol sy'n gwrthdaro ag amcanion rhannau eraill o bolisi'r llywodraeth.[26]

**26.** Roedd gan eraill farn wahanol. Mynegodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru bryder bod mabwysiadu polisïau economi sylfaenol arwahanol yn gwahanu busnesau bach a chanolig oddi wrth strategaeth twf economaidd ehangach, sydd wedyn yn canolbwyntio ar fusnesau mwy. Galwodd am agenda twf ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig i wrthsefyll hyn.[27] Galwodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru hefyd am ganolbwyntio ar y 'canol coll' ym mholisi'r economi sylfaenol. Byddai hyn yn defnyddio dulliau megis caffael cyhoeddus a chodi rhwystrau i alluogi busnesau i dyfu o fod yn hunangyflogedig i ficrofusnesau, micro i fusnesau bach, a busnesau bach a chanolig eu maint.[28]

[24] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Sylfaenol Cymru (Saesneg yn unig)
[25] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Sylfaenol Cymru (Saesneg yn unig)
[26] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cwmpas (Saesneg yn unig)
[27] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

**Astudiaeth achos – Blaenau Ffestiniog**




Dywedodd Cwmni Bro Ffestiniog wrthym "Yn ardal Ffestiniog, mae cymuned fywiog o fentrau cymdeithasol a busnesau llwyddiannus, gan gynnwys Antur Stiniog, Craig Blaenau, Seren Cyf, Dref Werdd, Gwesty Seren, Cymuned Gybolfa, Pengwern Gymunedol, Trawsnewid, Caban Bach, Menter Nyth y Gigfran, Y Wynnes, Llafar Bro, Ysgol Y Moelwyn, Cyfeillion Croesor, Gisda, Deudraeth Cyf, ac Opra Cymru a mwy. Maent wedi uno dan faner Cwmni Cymunedol Bro Ffestiniog fel rhwydwaith i gydweithio i gynnig cyfleoedd cynaliadwy mewn sectorau fel creadigol, gofal, amgylcheddol, adeiladu a thwristiaeth gynaliadwy. Mae hyn yn cynnig cefnogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd i'r gymuned ac yn sicrhau bod llais y gymuned yn cael gwreiddio yn y gwaith.

Mae buddion gweithredu fel hyn yn niferus. Mae cydweithio rhwng mentrau cymunedol, elusennau a chyrff gwirfoddol yn cryfhau'r economi leol, gan greu swyddi a chynyddu cyfranogiad cymunedol. Mae hefyd yn meithrin mentergarwch newydd ac yn cefnogi datblygiad amgylcheddol a diwylliannol, gan sicrhau gwelliant hirdymor i'r gymuned gyfan.

Mae'r rhwydwaith yn creu trosiant blynyddol o £4,208,896, sy'n dangos ei effaith economaidd gref yn yr ardal. Mae mwy na 160 o weithwyr yn cael eu cyflogi gan y mentrau yn yr ardal, gan greu swyddi a chyfleoedd i'r gymuned leol. Yn ogystal â'r gweithwyr â thâl, mae mentrau hefyd yn cynnig cyfleoedd wirfoddoli, gyda 195 o wirfoddolwyr sy'n cyfrannu'n hael at eu gweithgareddau, gan ychwanegu gwerth cymunedol ychwanegol. Mae'r gymysgedd o weithwyr a gwirfoddolwyr yn sicrhau bod y gwasanaethau a gynhelir yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol, gan ateb anghenion y gymuned mewn amryw o feusydd. Mae'r ymdrechion hyn yn sbarduno datblygiad unigolion a'r ardal a chael effaith ac buddiau gymdeithasol sylweddol, gan greu dyfodol mwy disglair a chynaliadwy i bawb sy'n byw yn yr ardal a datblygu ac adfywio'r gymuned.

Mae amcanion Cwmni Cymunedol Bro Ffestiniog yn cynnwys hybu cydweithio rhwng mentrau cymunedol yn yr ardal, gwella cydweithio rhwng mentrau cymunedol, elusennau, cyrff gwirfoddol, ac asiantaethau cyhoeddus a phreifat sy'n gweithredu yn yr ardal er budd y gymuned. Mae hefyd yn ceisio cefnogi a

hybu twf a datblygiad y sy'n bodoli eisoes, cynyddu cyfranogiad y gymuned, cefnogi gweithgarwch a mentergarwch cymunedol, sbarduno, meithrin a hybu mentrau newydd yn yr ardal, a chyfrannu at ddatblygiad unigolion yn ogystal â datblygiad economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol yr ardal er mwyn cael cymuned ffyniannus."

## Dull mwy hwylus neu ymyriadol

**27.** Clywsom amrywiaeth o safbwyntiau am y rôl y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae wrth gefnogi'r economi sylfaenol, a pha mor ymyraethol y dylai'r dull y mae'n ei weithredu fod.

**28.** Galwodd Cynghrair Sylfaenol Cymru am i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull llai ymyraethol o gefnogi'r economi sylfaenol.[29] Amlinellodd yr Athro Williams sut mae'n rhagweld y byddai hyn yn cael ei wneud yn ei dystiolaeth lafar:

> *... our argument is that it needs a quite different kind of approach than the strategising and policy-centric approach that Welsh Government has adopted, and that it requires attention to alliances of the willing and this whole business of skunkworks projects, things on the edge that actually bring together people who want change, rather than create strategies and regulations that assume everybody is going to do change.*[30]

**29.** Rhoddodd tystiolaeth ysgrifenedig Cynghrair Sylfaenol Cymru enghraifft ymarferol o 'gynghrair y rhai sy'n barod', gan dynnu sylw at waith y Gynghrair Tai Iach, lle mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi gweithio gyda chymdeithasau tai lleol a Phrifysgol De Cymru i gefnogi trigolion lleol sy'n economaidd anweithgar heb lawer o gymwysterau i gael cyflogaeth.[31]

**30.** Ychwanegodd yr Athro Williams fod prosiectau 'skunkworks' ar gyrion y llywodraeth, ond nid yn rhan ohoni, a bod angen hwyluswyr arnynt i ddod â phobl a sefydliadau at ei gilydd i fynd i'r afael â meysydd lle mae angen newid, a chefnogaeth uwch reolwyr a Llywodraeth Cymru.[32]

**31.** Galwodd sefydliadau sy'n darparu mentrau economi sylfaenol ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio mwy ar gefnogi dull o'r gwaelod i fyny. Galwodd Ali Abdi o

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Sylfaenol Cymru (Saesneg yn unig)
[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 27
[31] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Sylfaenol Cymru (Saesneg yn unig)
[32] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 80

Brifysgol Caerdydd am ymddiriedaeth yn y prosiectau hynny a arweinir gan y gymuned y gwyddom eu bod yn gweithio.[33] Yn yr un modd, dywedodd Gary Newman o Woodknowledge Wales, er bod angen rôl lefel uchel i Lywodraeth Cymru o ran pennu strategaethau hirdymor a rheoleiddio:

> *If you can inspire people to do things differently, and then help them and support them to implement that, then you can create fantastic, bottom-up change. And it works, as far as I'm concerned. So, a bit of top-down policy setting, and then a lot of bottom-up enabling.*[34]

**32.** Dywedodd Ceri Cunnington o Gwmni Bro Ffestiniog fod y gofynion ariannu ar gyfer grantiau yn rhy ragnodol, gan olygu bod yn rhaid i sefydliadau fod yn greadigol yn y ffordd y maent yn dweud eu bod yn cyflawni prosiectau.[35] Dywedodd hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn ddewr, a rhoi'r arfau iddynt fel cymunedau i weithredu ei strategaethau.[36]

**33.** Roedd sefydliadau eraill am weld mwy o gydbwysedd rhwng dull mwy ymyraethol a chymorth o'r gwaelod i fyny. Dywedodd Cynnal Cymru:

> *Social innovation is important in generating new ways of doing things and making progress. Government also has a role in spreading these new ideas, and helping those who are not intimately involved in the FE agenda and concepts to implement them. Both of these approaches are important.*[37]

**34.** Tynnodd Sarah Simmonds o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sylw at yr angen am rôl gydgysylltu ganolog i gefnogi sefydliadau neu raglenni i symud i'r cam nesaf, neu helpu i chwalu rhwystrau fel gweithio mewn seilos.[38]

**35.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod cydbwysedd i'w daro rhwng rôl arwain Llywodraeth Cymru a grymuso sefydliadau i wneud penderfyniadau sydd o fudd i'r economi sylfaenol:

> *… there is absolutely an important role for strong leadership in this space. But, equally, it is about creating those coalitions of the willing,*

[33] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 84
[34] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 195
[35] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 169
[36] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 122
[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynnal Cymru (Saesneg yn unig)
[38] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 88

> *having those communities of practice, which we've funded, so supporting those to become successful.*[39]

## Gweithio ar draws y llywodraeth

**36.** Er bod nifer o dystion wedi canmol gwaith uned economi sylfaenol Llywodraeth Cymru, clywsom bryderon hefyd ynghylch sut mae dull economi sylfaenol yn cael ei roi ar waith ar draws y llywodraeth, ac a yw hyn hyd yn oed yn bosibl.

**37.** Dywedodd yr Athro Morgan, er bod yr uned economi sylfaenol wedi gwneud llawer gydag ychydig, ei bod yn cael ei gwthio i'r cyrion gan ei bod yn 'fusnes fel arfer' i rannau helaeth o'r Llywodraeth, a bod angen mwy o weithio traws-lywodraethol.[40]

**38.** Roedd rhai tystion yn teimlo y gellid dysgu gwersi o feysydd polisi trawsbynciol eraill. Roedd Banc Datblygu Cymru o'r farn y gallai meysydd fel cyllidebu sero net a charbon ddarparu elfennau o arfer gorau.[41] Dywedodd Harry Thompson y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei dull o ymdrin â gwaith teg fel model:

> *If you look at the fair work agenda, that's another really similar agenda that's a kind of a cross-government one. And what they've done is they've got a guide to fair work—'Here are the specific things we're asking you to do as an organisation, and we can measure whether or not you've done them'—so, real living wage accreditation, trade union recognition.*[42]

**39.** Fodd bynnag, dywedodd Cynghrair Sylfaenol Cymru y canlynol:

> *The idea that the FE [foundational economy] can be mainstreamed by coordinating different groups within a multi-level system of government and governance underestimates the power and resilience of sectional agendas and resistance. The outcome too often is that everybody's business is nobody's priority.*[43]

[39] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 173
[40] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 38
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, Banc Datblygu Cymru
[42] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 45
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Sylfaenol Cymru (Saesneg yn unig)

**40.** Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at enghraifft o arfer da prif ffrydio a gyflawnwyd gan adran dai Llywodraeth Cymru, a weithiodd gyda 28 o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i fynd at 500 o fusnesau bach a chanolig i ddarparu cyfleoedd i weithio gyda'r sector tai cymdeithasol.[44]

**Ein barn ni**

Clywsom alwadau ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar gefnogi dull mwy o'r gwaelod i fyny at yr economi sylfaenol. Er ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad strategol i bennu cyfeiriad cyffredinol polisi a bod cydbwysedd i'w daro, credwn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy hwylus o ymdrin â'r economi sylfaenol, sy'n cefnogi sefydliadau arloesol i ysgogi newid yn eu cymunedau. Dylai gymryd dau gam allweddol i ddatblygu hyn. Yn gyntaf, dylai weithio gyda phartneriaid i dreialu cefnogi 'cynghreiriau y rhai sy'n barod' i gyflawni newid mewn rhai meysydd sylfaenol allweddol, a gwerthuso llwyddiant y dull hwn. Dylai hyn gynnwys nodi cyfleoedd i dreialu'r dull 'skunkworks' y mae'r Athro Williams yn ei argymell. Yn ail, dylai mabwysiadu dull llai rhagnodol o ymdrin ag arian grant sy'n cefnogi arloesedd sefydliadol ac yn grymuso sefydliadau i gyflawni blaenoriaethau cymunedol.

Clywsom hefyd ganmoliaeth i waith uned economi sylfaenol Llywodraeth Cymru, er inni glywed bod ei gallu i brif ffrydio'r economi sylfaenol ar draws y sefydliad wedi'i gyfyngu gan rannau eraill o'r llywodraeth sy'n mabwysiadu dull 'busnes fel arfer'. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn drwy ddysgu gwersi o feysydd polisi trawsbynciol eraill i'w galluogi i brif ffrydio'r economi sylfaenol ar draws y llywodraeth.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o ffocws ar gefnogi dull o'r gwaelod i fyny at yr economi sylfaenol. Fel rhan o'r dull hwn, dylai wneud y canlynol:

- Gweithio gyda phartneriaid i dreialu a gwerthuso 'cynghreiriau y rhai sy'n barod' i gyflawni newid mewn rhai meysydd economi sylfaenol allweddol, gan gynnwys nodi cyfleoedd i dreialu dull gweithredu tebyg i 'skunkworks'.
- Datblygu dulliau llai rhagnodol o ymdrin â chyllid grant sy'n cefnogi arloesedd ac yn grymuso sefydliadau i gyflawni blaenoriaethau cymunedol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa wersi y gellid eu dysgu o feysydd polisi trawsbynciol eraill i brif ffrydio dull economi sylfaenol ar draws y

[44] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 155

llywodraeth, a nodi sut mae'n bwriadu cymhwyso'r gwersi hyn erbyn mis Medi 2025.

# 4. Cyflawni mentrau'r economi sylfaenol

Mae sawl enghraifft ardderchog o fentrau sy'n ymwneud â'r economi sylfaenol, ond mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i ddysgu o'r rhain, a lledaenu arfer gorau yn fwy eang.

**Astudiaeth achos – Bwydydd Castell Howell**



Yn ôl Edward Morgan, Rheolwr Grŵp ESG, Bwydydd Castell Howell: "Mae Castell Howell yn cyflenwi cynhwysion ar gyfer tua 900,000 o brydau ysgol bob wythnos. Gyda dewisiadau bwydlen ac opsiynau cyfyngedig ar gyfer plât y sector cyhoeddus, mae argaeledd 100%, 100% o'r amser yn hanfodol, yn enwedig o ystyried y ffaith mai pryd ysgol yw'r unig bryd llawn o'r dydd i rai unigolion ifanc. Fel cyfryngwr rhwng cynhyrchwyr ac arlwywyr, mae gennym gyfrifoldeb i adolygu ein cadwyni cyflenwi gan nodi risgiau a gwendidau posibl wrth ddarparu bwyd.

Mae cael sector prosesu amaethyddol ac eilaidd cynhenid cryf nid yn unig yn darparu'r bwyd sydd ei angen arnom i gynnal ein bywydau, mae hefyd yn creu cyfoeth, cymunedau cryf ac yn helpu i gynnal diwylliant Cymru. O ganlyniad, rydym yn ymwneud â nifer o brosiectau yr ydym yn credu sy'n helpu i liniaru rhai o'r heriau difrifol a all effeithio ar ddarparu bwyd i'n cwsmeriaid.

Rydym mewn sefyllfa ffodus i arwain a gweithio gyda phrosiectau, megis Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru, dadansoddiadau cylch bywyd llysiau, a datblygu cynnyrch newydd o fwydydd gwerth maeth uchel gyda chynhwysion o Gymru. Mae'r rhain wedi'u hariannu gan dîm Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru. Heb os, y ffordd orau o ddysgu yw trwy wneud, dim ond trwy fabwysiadu dull rhagweithiol 'gallu gwneud' a rhannu'r hyn a ddysgir y gellir gwireddu canlyniadau diriaethol. Dylai buddsoddiad yn y dyfodol gael ei dargedu ar y lefel ymarferol, a helpu i ariannu'r bylchau yn ein cadwyni cyflenwi, megis seilwaith

prosesu llysiau, a fydd yn gwireddu'r nod o fwy o hunangynhaliaeth yng Nghymru."

## Effaith ac effeithiolrwydd

**41.** Yn ôl yr Athro Sissons a'r Athro Green, er bod yr economi sylfaenol yn gysyniad cynyddol ddylanwadol, mae bwlch mawr wedi bod rhwng y datblygiadau cysyniadol hyn, a'r arfer presennol o ddatblygu polisi.[45]

**42.** Yn ôl Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, er eu bod o'r farn y bu llwyddiannau nodedig o ran polisi'r economi sylfaenol – megis Cronfa Her yr Economi Sylfaenol a chanolbwyntio ar wariant caffael lleol – nid yw'n glir a fyddai'r rheini wedi digwydd beth bynnag. At hynny, maent yn ansicr ynghylch sut mae pocedi o lwyddiant yn berthnasol i strategaeth economaidd ehangach.[46]

**43.** Nododd Cwmpas fod ymyriadau gan Lywodraeth Cymru sydd â ffocws penodol ar yr economi sylfaenol wedi bod yn arloesol ond heb fod yn ddigon cydgysylltiedig.[47] Yn ôl Katie Palmer o Synnwyr Bwyd Cymru, mewn nifer o achosion mae cylch gorchwyl yr economi sylfaenol yn groes i bolisïau ehangach ar y system fwyd yng Nghymru, neu o leiaf heb integreiddio â hwy i lawer o raddau.[48]

**44.** Yn ôl Cynghrair Sylfaenol Cymru, o ran mentrau sylfaenol sydd wedi'u labelu'n benodol, mae'n rhaid taw 'heb weithio cystal' yw'r dyfarniad, oherwydd prin iawn yw'r canlyniadau sy'n gadarnhaol ac yn cael eu llywio gan bolisi.[49] Dywedodd yr Athro Williams bod 'llwyddiannau damweiniol' – megis Woodknowledge Wales a Chwmni Bro Ffestiniog – sydd wedi cael eu cefnogi ar daith yr oedden nhw eisoes wedi dechrau arni.[50]

**45.** At hynny, clywsom dystiolaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd i werthuso effaith polisi'r economi sylfaenol. Yn ôl Dr Walpole, gallai Llywodraeth Cymru fynnu bod pob prosiect a ariennir yn adrodd ar allbynnau a chanlyniadau fel rhan o fframwaith gwerthuso, a chyhoeddi astudiaethau achos.[51]

---

[45] Sissons a Green, *Facing up to the foundational economy: regional development, public policy and employment in Wales*
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cwmpas
[48] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 26
[49] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Sylfaenol Cymru
[50] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraffau 36 a 37
[51] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Gary Walpole

**46.** Dywedodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod yna werthusiadau ar gyfer pob prosiect a ariennir drwy gyllid yr economi sylfaenol, a bod Llywodraeth Cymru'n gwybod y bydd rhai ymyriadau llwyddiannus iawn yn gweithio.[52]

## Effaith ffrydiau ariannu penodol

**Astudiaeth achos: Loceri bwyd Well-Fed, a MealVend**




Dywedodd Robbie Davison, Cyfarwyddwr Well-Fed, y canlynol wrthym:

"Fel busnes bwyd cymdeithasol, rydym bob amser yn ceisio gwella sut y gall pobl o bob incwm gael mynediad at y bwydydd/prydau gorau posibl. Wrth feddwl am system fwyd gyfan, roedd ychydig o fylchau yn amlwg i ni - bylchau yr oeddem am eu cau.

Y cyntaf oedd rhoi cyfle i gartrefi brynu prydau y gellir eu coginio gartref a'u casglu yn ôl eu hwylustod. I lenwi'r bwlch hwn, gyda phartner, fe wnaethom greu MealLockers – loceri oergell a fyddai, pan gânt eu gosod y tu allan i ysgolion neu rywle arall mewn cymunedau, yn galluogi pobl i siopa am eu prydau a'u dewis i weddu i'w hamserlen.

Yr ail fwlch oedd sicrhau bod staff mewn gweithleoedd mwy yn gallu cael gafael ar fwyd ffres da ar sail 24/7 os oedd angen. Ac yma, unwaith eto gyda phartneriaid, fe wnaethom greu MealVend - y system gwerthu prydau ffres di-blastig gyntaf, sy'n caniatáu i staff brynu a chasglu pryd o fwyd sy'n gweddu i'w hamserlen waith.

Cafodd y ddau ddatrysiad eu gwneud yn bosibl gyda chefnogaeth gan y tîm Economi Sylfaenol, a chawsom ein cefnogi gan y grant Addysg Bellach i gwblhau'r ddau ddatrysiad yn barod ar gyfer y gwaith profi hanfodol cyn lansio i'r farchnad. Heb y cymorth grant ni fyddai'r cam hollbwysig hwn wedi bod yn bosibl, a byddai'r camau cyn lansio i'r farchnad wedi cael eu gohirio neu hyd yn oed fod wedi'u hatal."

[52] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 200

**47.** Dywedodd sefydliadau a oedd wedi cael cymorth drwy Gronfa Her yr Economi Sylfaenol wrthym sut yr oeddent wedi elwa. Dywedodd Woodknowledge Cymru fod y cyllid a ddarparwyd yn eithaf rhad, ac wedi cael 'effaith anhygoel' wrth gefnogi newid o'r gwaelod i fyny.[53] Yn ôl Cyfle Building Solutions, heb yr hwb hwnnw, ni fydden nhw wedi cynnal cynllun peilot.[54]

**48.** Aeth Cynghrair Sylfaenol Cymru ymlaen i esbonio, er bod ychydig o lwyddiant:

> *… the responsive nature of the process meant that applications were not targeted on specific organisations, activities and places, diluting the impact and learning opportunities.*[55]

**49.** Nododd yr Athro Sissons a Green mai cyfyngedig oedd ymgysylltiad busnesau â'r gronfa. Fe wnaethon nhw ganfod nad oedd llawer o brosiectau a gefnogwyd gan y gronfa yn wahanol i brosiectau a gefnogir yn nodweddiadol drwy fentrau datblygu economaidd, a bod prosiectau dethol yn ymddangos yn fwy *ad-hoc*, yn hytrach na llywio dull cydlynol o ran yr economi sylfaenol.[56]

**50.** Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod rhaglen yr Economi Sylfaenol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn alluogwr allweddol wrth ysgogi newid cadarnhaol ar draws y GIG yn y tymor hir, a bod llawer o gynnydd wedi bod ers ei lansio ym mis Tachwedd 2021.[57]

## Cymorth ariannu yn y tymor hwy

**51.** Er bod sefydliadau sydd wedi cael cyllid at ddibenion yr economi sylfaenol gan Lywodraeth Cymru wedi gallu ei ddefnyddio i roi hwb i brosiectau, fe wnaethon nhw alw am drefniadau ariannu yn tymor hwy i gefnogi'r economi sylfaenol.

**52.** Yn ôl Robbie Davison, pan fod yna drefn ariannu gystadleuol sy'n cynnig symiau bach o arian, allbynnau prosiect yw'r unig beth sy'n dod yn ôl, yn hytrach nag economi sydd mewn unrhyw ffordd yn gryf, neu'n meddu mewn unrhyw ffordd ar y gallu i symud ymlaen. [58]

---

[53] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 195
[54] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 174
[55] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Sylfaenol Cymru
[56] Sissons a Green, Facing up to the foundational economy: regional development, public policy and employment in Wales
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, Conffederasiwn GIG Cymru
[58] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 73

**53.** Dywedodd Anthony Rees o Cyfle Building Solutions fod ei sefydliad wedi talu £22 miliwn mewn cyflogau drwy brentisiaethau a rennir ers 2013, ond bod hynny o dan fygythiad ar bob adeg, oherwydd cyllid, a chyllid am dros flwyddyn neu ddwy'n unig ydyw.[59]

**54.** Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel a ganlyn:

> *… increased and or more sustainable funding solutions, in place of limited or short-term funding could support our ability to stretch our ambition with initiatives and supporting our ability to scale progress.*[60]

**55.** Dywedodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet, er eu bod yn ceisio llywio sefydliadau tuag at gymorth tymor hwy, mae rhanddeiliaid yn sôn wrthyn nhw drwy'r amser bod cyllid tymor hwy yn caniatáu iddyn nhw gynllunio'n well wrth symud ymlaen.[61] Tynnodd swyddog arall o Lywodraeth Cymru sylw at golli cyllid aml-flwyddyn yr UE fel bod yn fater, gan fod cymorth wedi'i ddarparu'n flaenorol dros gyfnod o 3-5 mlynedd.[62]

## Lledaenu a graddio arfer da

**56.** Tynnodd yr Athro Morgan sylw at y ffaith mai'r broblem fawr dros 20 mlynedd yw diffyg ymlediad o ran arfer da.[63] Er mwyn mynd i'r afael â hynny, awgrymodd fel a ganlyn:

> *That's the fundamental way that organisations learn: peer-to-peer learning. And, therefore, that's what I would like to see more of.*[64]

**57.** Amlinellodd Harry Thompson y rôl y mae cymunedau ymarfer – megis y rheini sy'n cael eu rhedeg gan Cynnal Cymru ar gyfer Cronfa Her yr Economi Sylfaenol – wedi'i chwarae wrth wneud y mwyaf o ddysgu, gan amlygu pwysigrwydd cyfathrebu a chydweithio.[65]

[59] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 175
[60] Tystiolaeth ysgrifenedig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
[61] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 204
[62] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 205
[63] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 91
[64] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 91
[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 68

**58.** Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wrthym fod angen dealltwriaeth ehangach o werth economaidd a’r effeithiau ar sgiliau lleol, meithrin gallu a galluoedd mewn cwmnïau lleol, at ddibenion cynyddu arfer da.[66]

**59.** Yn ôl Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, mae angen ystyried y canlynol:

> *... sustainable ways to support, co-ordinate and enable long term funding, capacity and capability across organisational and public sector organisation boundaries to scale up successful pilots or proven initiatives.*[67]

**Ein barn ni**

Rydym wedi clywed gan amrywiaeth o sefydliadau sydd wedi mabwysiadu dulliau arloesol o gyflawni o ran yr economi sylfaenol, ac mae nifer ohonynt wedi’u cynnwys fel astudiaethau achos drwy gydol ein hadroddiad. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i nodi lle mae potensial i brosiectau llwyddiannus gael eu huwchraddio, a chefnogi sefydliadau i fwrw ymlaen â hyn, er mwyn sicrhau manteision i gymunedau ledled Cymru.

Fodd bynnag, fel y clywsom gan yr Athro Kevin Morgan, dros yr 20 mlynedd diwethaf bu diffyg ymlediad o ran arfer da. Mae dulliau o’r gwaelod i fyny – megis dysgu rhwng cymheiriaid a chymunedau ymarfer – yn cynnig y potensial i ddechrau mynd i’r afael â hyn, a dylent barhau. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo sefydliadau’r economi sylfaenol sydd am ddysgu o arfer da, drwy gyhoeddi canfyddiadau allweddol gwerthusiadau o fentrau’r economi sylfaenol mewn un lle.

Amlinellodd sefydliadau a oedd wedi cael cymorth gan ffrydiau ariannu economi sylfaenol Llywodraeth Cymru sut yr oedd y rhain wedi gweithredu fel hwb cychwynnol. Fodd bynnag, roedd yna farn gyffredinol bod angen cymorth yn y tymor hwy i gefnogi prosiectau llwyddiannus sydd arnynt angen cyllid parhaus. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o’r mater hwn, ac yn galw arni i wella’r cymorth ariannol hirdymor sydd ar gael i sefydliadau’r economi sylfaenol. Mae’r trefniadau olynol i’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cynnig cyfle i wneud hyn, a dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i archwilio’r rhain.

[66] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
[67] Tystiolaeth ysgrifenedig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**Argymhelliad 5.** Er mwyn cefnogi camau dysgu, lledaenu a graddio arfer da, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau allweddol yn sgil gwerthusiadau o fentrau economi sylfaenol mewn un lle. Dylid ymgorffori'r rheini, wedyn, yn ei gwaith craffu ar ba mor effeithiol y mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni blaenoriaethau'r economi sylfaenol. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i nodi prosiectau llwyddiannus yr economi sylfaenol y mae'n dymuno eu cynyddu, a nodi ei chynlluniau i wneud hynny.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r modd y bydd yn gwella'r cymorth ariannol tymor hwy sydd ar gael i fentrau llwyddiannus yr economi sylfaenol, y mae angen cymorth parhaus arnynt. Dylai hyn gynnwys dadansoddi'r modd y gellir defnyddio'r trefniadau twf lleol olynol i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, i gefnogi sefydliadau'r economi sylfaenol.

# 5. Caffael

Cafwyd enghreifftiau cadarnhaol o gyrff cyhoeddus yn defnyddio mentrau caffael i gefnogi busnesau bach a chanolig yr economi sylfaenol dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae mwy i'w wneud i ymestyn a graddio'r arfer da hwn.

**Astudiaeth achos: Adra – Tŷ Gwyrddfai a mentrau caffael**



Dywedodd Adra wrthym: "Mae Tŷ Gwyrddfai yn bartneriaeth rhwng Adra, Prifysgol Bangor, a Grŵp Llandrillo Menai, sy'n ffurfio'r canolbwynt datgarboneiddio cyntaf o'i fath yn y DU gyda chefnogaeth noddwyr strategol, gan gynnwys Travis Perkins, Saint Gobain, a Nuaire. Mae'r hwb yn uwchsgilio'r gadwyn gyflenwi leol, gan gynnwys tîm atgyweirio a chynnal a chadw mewnol Adra gyda'r sgiliau gwyrdd diweddaraf, gan gefnogi rhaglenni ôl-osod gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Mae Tŷ Gwyrddfai wedi hyfforddi dros 800 o grefftwyr o Adra a'r gadwyn gyflenwi leol mewn sgiliau ôl-osod a gwyrdd hyd yn hyn.

Yn ogystal, mae'r prosiect Tendra, a ariennir gan Arfor, yn cefnogi busnesau bach a chanolig lleol i gynnig am gontractau, gan gynnig hyfforddiant ar gaffael, gwerth cymdeithasol, achrediadau, iechyd a diogelwch, a phrisio swyddi. Mae'r cydweithrediad arloesol hwn hefyd yn cynnwys cyfleuster ymchwil gweithredol a reolir gan yr hinsawdd i brofi a dilysu cynhyrchion tai newydd, a reolir gan Brifysgol Bangor.

Mae ymrwymiad Adra i gynaliadwyedd yn cael ei ddangos ymhellach trwy fentrau fel Ffrâm24, sef fframwaith Cymru gyfan ar gyfer cyflenwi deunyddiau adeiladu a chynhyrchion cysylltiedig. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi economïau

lleol, gyda 79.5% o gyflenwyr wedi'u lleoli yng Nghymru, gan atgyfnerthu'r Economi gylchol."

## Effeithiolrwydd y dull presennol o gaffael

**60.** Roedd Cynghrair Sylfaenol Cymru yn feirniadol o'r rôl sydd gan bolisïau caffael cyhoeddus o ran dull Llywodraeth Cymru at yr economi sylfaenol. Fe wnaethant nodi fel a ganlyn:

> *The role of public procurement has been widely misunderstood. Postcode localisation does not capture value added and risks building client firms, not capable firms; the broader approach of supply chain development is limited by Welsh capacity to mobilise volume demand.*[68]

**61.** Dywedodd yr Athro Morgan wrth y Pwyllgor fod caffael cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei sefydlu i fethu, oni bai ei fod wedi'i integreiddio â pholisïau eraill, er enghraifft polisi ar ddiet cynaliadwy a'r defnydd o fwyd mewn perthynas â chaffael bwyd.[69]

**62.** Dywedodd Woodknowledge fod popeth yn ymddangos yn bosibl gyda chaffael. Fodd bynnag, yn ôl Woodknowledge, ychydig sy'n cael ei gyflawni o ystyried llawer o brosesau caffael yn y sector cyhoeddus sy'n tueddu i osgoi risg. Mae'n dweud mai'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r rheolau yw'r broblem, yn hytrach na'r rheolau eu hunain, a bod angen mynd i'r afael ag ymddygiad a diwylliannau ceidwadol o gaffael cyrff.[70]

**63.** Fodd bynnag, roedd gan Cynnal Cymru farn wahanol, gan ddweud fod y rhan fwyaf o'r llwyddiannau o ran yr economi sylfaenol, hyd yn hyn, wedi bod mewn perthynas â chaffael, sef rhywbeth y mae'n ystyried yn beth cadarnhaol yn ogystal â her.[71]

## Cefnogi busnesau'r economi sylfaenol

**64.** Dywedodd yr Athro Patterson, mewn perthynas â chaffael, fod busnesau bach a chanolig yn cyrraedd maint penodol ac yn cael trafferth, oherwydd heriau gyda gwaith papur. Mewn perthynas â'r hyn sydd ei angen i gefnogi busnesau

[68] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Sylfaenol Cymru (Saesneg yn unig)
[69] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 59
[70] Tystiolaeth ysgrifenedig, Woodknowledge Wales
[71] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynnal Cymru (Saesneg yn unig)

bach a chanolig, dywedodd y bydd Deddf Caffael 2023 yn helpu, ond bydd angen cymorth pellach ar fusnesau'n ogystal.[72]

**65.** Tynnodd Cynnal Cymru sylw at enghreifftiau o arfer da ym Mro Morgannwg ac Abertawe sydd wedi cynyddu cyfleoedd i fusnesau economi sylfaenol. Dywedodd Harry Thompson fod yna ddatgysylltiad rhwng cyrff cyhoeddus a chyflenwyr lleol bedair neu bum mlynedd yn ôl, ond mynegodd y canlynol o ran y sefyllfa, erbyn hyn:

> *There's more of a sense in public bodies that they should be reaching these local suppliers. I don't know how you quantify that. I don't know how it's being measured, but there do seem to be consistent examples where these public bodies are reaching FE[foundational economy] suppliers in a way they weren't before.*[73]

**66.** Awgrymodd Cwmpas y byddai contractau neilltuol a gwaith consortiwm ategol yn helpu busnesau bach a chanolig, ynghyd â meithrin piblinellau a chadwyni cyflenwi mewn modd rhagweithiol i gynnwys atebion o ran mentrau cymdeithasol.[74]

**67.** Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol fel ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gefnogi busnesau bach a chanolig sydd â phencadlys yng Nghymru i oresgyn rhwystrau, yn enwedig wrth wneud busnes â'r sector cyhoeddus. Yn 2022-23, dyrannwyd £1.4 miliwn i'r gronfa, ond mae hyn wedi gostwng i £0.5 miliwn yn 2025-26.[75] Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae cyllid pwrpasol ar gyfer yr economi sylfaenol wedi lleihau yn dilyn yr ymarfer ailflaenoriaethu i fynd i'r afael â phwysau cyllidebol yn 2024-25, ac mae wedi'i liniaru yn sgil prif ffrydio cymorth busnes.

**68.** Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion sylw at waith parhaus i gynyddu canran y gwariant caffael sy'n mynd i fusnesau Cymru, a bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnig hyfforddiant i fusnesau i'w helpu i ddeall sut i wneud y gorau o ddeddfwriaeth newydd ar gyfer caffael.[76] Dywedodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod cyflenwyr o Gymru (na fydd pob un ohonynt

---

[72] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 259
[73] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 67
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cwmpas
[75] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
[76] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraffau 248 a 249

yn fusnesau'r economi sylfaenol) ar hyn o bryd yn ennill 55% o gontractau caffael cyhoeddus, i fyny o 52% yn 2019.[77]

**69.** Amlygodd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru fod GIG Cymru wedi ymgorffori ystyriaethau o ran yr economi sylfaenol a gwerth cymdeithasol yn ei broses gaffael o ganlyniad i gyllid gan Lywodraeth Cymru, "gan olygu bod busnesau lleol wedi ennill £40m o gontractau a oedd gynt wedi mynd allan o Gymru."[78]

## Gwerth cymdeithasol a chaffael

**70.** Dywedodd Adra y bydd *Deddf Caffael 2023*, mewn egwyddor, yn rhoi mwy o ffocws ar gadwyni cyflenwi lleol a sicrhau mwy o werth cymdeithasol drwy gontractau, ac y bydd mwy o gysylltiad caffael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cryfhau'r economi sylfaenol. Fodd bynnag, mae pwysau ariannol a chostau byw wedi arwain at ganolbwyntio ar gostau, sy'n effeithio ar gaffael lleol.[79]

**71.** Yn ôl Cyngor Sir Powys, dylai Llywodraeth Cymru gymryd rôl arweiniol wrth greu agwedd gyson at werth cymdeithasol ym maes caffael yn y sector cyhoeddus, lle mae gwariant yn cael ei dargedu at feysydd o bwys i gymunedau.[80]

**72.** Pan oeddem wrthi'n drafftio ein hadroddiad, fe wnaeth Llywodraeth Cymru roi rhai o elfennau caffael cymdeithasol cyfrifol Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ar waith.[81] Bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cymalau caffael enghreifftiol sy'n ymwneud ag adeiladu a rhoi gwasanaethau cyhoeddus ar gontract allanol, a datblygu canllawiau a rheoliadau. Bydd gweddill y rhan hon o'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yn ddiweddarach.

**73.** Mewn perthynas â'r fframwaith bwyd ar gyfer caffael, sy'n cwmpasu 16 awdurdod lleol, nododd Edward Morgan o Bwydydd Castell Howell fel a ganlyn:

> *The tender documents have shifted in the last 10 years from possibly a 30 per cent quality envelope on your ability to deliver and other benefits, 70 per cent price. It's reversed to 70 per cent quality and 30 per cent price. Some contracts are 60:40 and some are 50:50, but*

[77] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 246 249
[78] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[79] Tystiolaeth ysgrifenedig, Adra
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir Powys
[81] Gorchymyn Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 3) 2025

> *there's a general shift towards a focus on what social value the contract can bring.*[82]

**74.** Fodd bynnag, o ran Gogledd Cymru, dywedodd Robbie Davison y canlynol:

> *I'm not seeing that, from a commissioning point of view, the message is getting through—definitely not in the region where we work. I could give examples from just last year where some of the procurement was 90:10 in favour of cost. Only 12 months ago, 90:10 in favour of cost is a quite shocking place to be.*[83]

**75.** Galwodd Well-Fed am newid polisi caffael er mwyn sicrhau cydbwysedd gwell rhwng cost ac ansawdd, a chynnig hyfforddiant i staff caffael, gan fod gormod o grŵp staff presennol Well-Fed wedi dod i arfer â 'prisio'n gyntaf' ac i'r rhan fwyaf (y mae Well-Fed wedi'u bodloni) mae gwerth cymdeithasol yn derm llac, neu'n un sydd wedi'i gamddeall.[84]

**76.** Amlinellodd y Cynghorydd Matthew Brown arfer da yng Nghyngor Dinas Preston, gan nodi bod y grŵp ymarferwyr caffael lleol o sefydliadau angori wedi archwilio'r canlynol:

> *sharing best practice and looking at how we can increase spend to the local economy, and also get positive things like apprentices, trade union recognition, access, real living wage, and other very positive things. A lot of it is just, for example, if there are large contracts, can you break them down into small ones, because what we found is that local companies had the capacity to deliver those. It's having 'meet the buyer' days. Things like the documentation sometimes make it really difficult for smaller businesses to bid.*[85]

**Ein barn ni**

Ers i'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd gyflwyno adroddiad ar gaffael yn yr economi sylfaenol yn gynnar yn 2020, rydym wedi gweld arfer da yn dod i'r amlwg, ond mae llawer mwy i'w wneud. Er enghraifft, mae'r argymhelliad cyntaf yn adroddiad 2020 yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi eglurder ynghylch yr hyn y

[82] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 32
[83] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024, paragraff 35
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig, Well-Fed (Saesneg yn unig)
[85] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 181

mae'n ei olygu wrth gaffael lleol. Bum mlynedd ymlaen o hynny, cawsom wybod gan Ysgrifennydd y Cabinet, er y bu cynnydd o ran mynd i'r afael â hyn, mae rhai heriau'n parhau.

Ceir enghreifftiau ysbrydoledig o arfer da o ran darparu mwy o gyfleoedd caffael i fusnesau bach a chanolig yn sectorau'r economi sylfaenol, a chlywsom fod y sefyllfa'n well nag yr oedd bedair neu bum mlynedd yn ôl. Yr her, fel erioed, yw lledaenu a graddio'r arfer cadarnhaol hwn er budd busnesau bach a chanolig ledled Cymru. Mae cyfleoedd i ddysgu o arfer presennol, er enghraifft trwy gymunedau ymarfer, a dysgu cymheiriaid, sy'n bethau a amlinellwyd ym mhennod flaenorol ein hadroddiad. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau i wneud hyn, a hoffem ddeall sut y mae'n bwriadu gwneud hynny.

Yn y cyd-destun hwn, rydym yn synnu bod y dyraniad cyllideb i'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol – sy'n cefnogi busnesau i wneud busnes â'r sector cyhoeddus – wedi'i leihau. Rydym yn gwerthfawrogi'r pwyntiau a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran prif ffrydio'r economi sylfaenol i'r gyllideb mewn mannau eraill. Fodd bynnag, nid ydym wedi cael ein hargyhoeddi y bydd hynny wedi lliniaru'r toriad yn llawn.

At hynny, clywsom am y potensial ar gyfer deddfwriaeth gaffael ddiweddar i alluogi mwy o werth cymdeithasol i gael ei ddarparu, gyda'r cafeat am yr angen am hyfforddi staff ar y mater hwn. Hoffem i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni'r gwelliannau hyn.

**Argymhelliad 7.** Mewn perthynas â gwella cyfleoedd caffael i fusnesau bach a chanolig yn yr economi sylfaenol, dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau a ganlyn:

- Amlinellu'r modd y bydd yn gweithio gyda phartneriaid i ledaenu a chynyddu arfer gorau i gefnogi busnesau bach a chanolig yr economi sylfaenol ledled Cymru i dendro am gyfleoedd caffael yn y sector cyhoeddus.

- Nodi'r modd mae'n bwriadu defnyddio ei phwerau o dan Dd*eddf Caffael 2023* a *Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023* er mwyn cefnogi mwy o wariant gyda busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, a sefydliadau trydydd sector.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r modd y bydd yn defnyddio deddfwriaeth gaffael ddiweddar i wneud y mwyaf o werth cymdeithasol caffael ar

draws sefydliadau sector cyhoeddus datganoledig. Dylai ddarparu hyfforddiant wedi'i deilwra i staff caffael i'w galluogi i roi hyn ar waith.

# 6. Gwaith teg a'r economi sylfaenol

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyflogau isel yn gyffredin mewn rhannau o'r economi sylfaenol. Gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i fynd i'r afael â hynny, a dylai weithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ailddyblu ymdrechion i ysgogi cynnydd.

**77.** Mae Sefydliad Bevan yn ogystal â'r Athro[86] Sissons a'r Athro Green[87] wedi canfod bod cyflog isel cronig ac ansawdd swyddi gwael yn gyffredin mewn rhannau o'r economi sylfaenol. Fodd bynnag, canfu'r Athro Sissons a Green fod yna dystiolaeth gyfyngedig o lwyddiant amlwg wrth harneisio polisi'n ymwneud â'r economi sylfaenol at ddibenion gwella amodau gwaith.[88] Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom dystiolaeth am ddwy ffordd y gallai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn.

## Sefydliadau angori yn recriwtio o gymunedau difreintiedig

**78.** Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth ar fanteision sefydliadau angori – megis y GIG, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig – yn cefnogi pobl o gymunedau difreintiedig, drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant.

**79.** Mae llawer o'r dystiolaeth hon wedi bod mewn perthynas â'r GIG. Nododd Cynghrair Sylfaenol Cymru y dylai datblygu eich gweithlu eich hun fod yn flaenoriaeth sylfaenol ym maes gofal iechyd.[89] At hynny, fe wnaethant nodi bod angen addasu a graddio hyn ar draws gwahanol rolau o fewn y GIG, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r ddibyniaeth ar staff cronfa/asiantaeth, a recriwtio staff o dramor.[90]

[86] Sefydliad Bevan, *Fair work in the foundational economy: what should be done*
[87] Sissons a Green, *Facing up to the foundational economy: regional development, public policy and employment in Wales*
[88] Sissons a Green, *Facing up to the foundational economy: regional development, public policy and employment in Wales*
[89] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Sylfaenol Cymru
[90] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Sylfaenol Cymru


**80.** Cawsom wybod gan Sarah Simmonds fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi mabwysiadu dull gwahanol o recriwtio gweithwyr cymorth gofal iechyd, gan nodi bod hyn yn golygu edrych ar y canlynol:

> *… how we recruit for people's values, their care ethics, their personal kind of ambitions and goals over and above if they hold a piece of paper that says they have a level 2 in health and social care, for example. And we did it not by only changing our entry requirements, but by wrapping around it a different model of selection.*[91]

[91] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 67

**Astudiaeth achos: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** (gwybodaeth wedi'i rhoi gan y bwrdd iechyd)

# INTERNIAETHAU Â CHYMORTH AR GYFER DYSGWYR SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL (ILS)



## AMCAN ALLWEDDOL Y CONSORTIWM:

**"Cynnig interniaethau â chymorth i Ddysgwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol lleol."**

Partneriaid arweiniol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB), Engage to Change, a Coleg Gwent

## CEFNDIR A MATER A NODWYD:

Ym mis Chwefror 2022, lansiwyd y rhaglen interniaeth â chymorth gyntaf ar y cyd â BIPAB, Engage to Change, ac Anabledd Dysgu Cymru. Mae'r dull arloesol hwn yn cyfuno dysgu seiliedig ar waith â rhaglen astudio bersonol sy'n ymgorffori elfennau o Lwybr 4 y cwricwlwm Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS). Nod y rhaglen yw cefnogi dysgwyr ILS gyda'r sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i sicrhau cyflogaeth leol, gynaliadwy â thâl. Treuliodd y garfan gychwynnol o ddysgwyr tri diwrnod yr wythnos yn yr adran cyfleusterau yn Ysbyty Nevil Hall.

> **"Dw i'n teimlo'n gyffrous, a dw i'n edrych ymlaen at weithio yn yr ysbyty a chwrdd â phobl newydd. Hoffwn adeiladu ar fy hyder."**
>
> **Dysgwr ILS**

## LLWYDDIANNAU A BUDDIOLWYR HYD YMA:

Mae'r rhaglen wedi dangos twf a llwyddiant cyson flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn ei flwyddyn gyntaf, cwblhaodd chwech myfyriwr yr interniaeth â chymorth, gyda pedwar yn sicrhau cyflogaeth ran-amser ac un yn symud ymlaen i raglen goginio broffesiynol.

Yn 2022/23, cwblhaodd wyth dysgwr y rhaglen yn llwyddiannus, sicrhaodd un brentisiaeth gyda'r tîm cofnodion iechyd yng Nghasnewydd a chafodd dau ddysgwr brentisiaethau gyda'r tîm cyfleusterau yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Yn ogystal, cafodd un dysgwr brentisiaeth gyda'r tîm cofnodion iechyd yn Ysbyty Nevill Hall, a sicrhaodd un arall swydd â thâl rhan-amser nad oedd yn gysylltiedig â'r sector iechyd. Cyfrannodd gweddill y dysgwyr at brosiectau gwirfoddoli amrywiol.

Bellach yn ei thrydedd flwyddyn, mae'r rhaglen yn parhau i ffynnu, gyda saith o ddysgwyr wedi cofrestru ar hyn o bryd ac yn elwa o leoliadau gyda'r timau cyfleusterau yn Nevill Hall.

## DYHEADAU AR GYFER Y DYFODOL:

Datblygu partneriaethau ag adrannau a sefydliadau gofal iechyd ychwanegol y tu hwnt i gydweithrediadau presennol, gan helpu i amrywio'r mathau o leoliadau sydd ar gael, gan ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr archwilio ystod ehangach o lwybrau gyrfa. Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod holl raddedigion y rhaglen yn cael cyfweliad gwarantedig ar gyfer agoriadau swyddi perthnasol, gan bontio'r bwlch rhwng hyfforddiant a chyflogaeth.

**81.** Roedd Harry Thompson am weld Llywodraeth Cymru yn cymryd camau er mwyn annog y mentrau hyn i gael eu lledaenu'n ehangach, a disgrifiodd nhw fel a ganlyn:

> *... a win, win, win across the board, because you're addressing NHS staff shortages in rural areas, you are giving predominantly women who maybe didn't get their GCSEs when they were 16 years old, and are now 35, who are rooted in the communities and probably stuck in low-paid and unfair work, a pathway to better jobs while you're doing something socially useful.*[92]

**82.** Tynnodd Adra sylw at waith Academi Adra, sy'n darparu sgiliau, cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi i denantiaid Adra. Ers ei sefydlu yn 2022 mae dros 150 o gyfleoedd hyfforddi wedi'u hariannu; mae 50 o leoliadau gwaith cyflogedig wedi'u darparu a dros 30 o swyddi wedi'u creu, hyd yn hyn.[93]

**83.** Dywedodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod mentrau 'tyfu eich gweithlu eich hun' fel a ganlyn:

> *... absolutely a kind of key area that we want to see scaled up, so we are working and will continue to work with the health boards, to understand how those kinds of initiatives are successful, what are the key points for those, so that we can work not just with the other health boards but with the other large anchor organisations to encourage the take-up of those kinds of approaches.*[94]

## Gwella cyflog ac amodau yn yr economi sylfaenol

**84.** Soniodd nifer o dystion wrthym am bwysigrwydd gwella cyflog ac amodau yn sectorau'r economi sylfaenol. Yn benodol, roedd tystion am weld cyflogwyr yn talu o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol, a bennwyd gan y Living Wage Foundation.[95]

**85.** Dywedodd Cynnal Cymru fod angen dybryd i wneud mwy ar waith teg yn yr economi sylfaenol. Gwnaethant awgrymu fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod

---

[92] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 55
[93] Tystiolaeth ysgrifenedig, Adra
[94] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 281
[95] Y Living Wage Foundation, *What is the real Living Wage*?

cyrff cyhoeddus yn hyrwyddo elfennau gwaith teg fel talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a chydnabyddiaeth undebau llafur.[96]

**86.** Nododd Harry Thompson fod Mark Drakeford – pan oedd yn Brif Weinidog – wedi ysgrifennu at bob corff cyhoeddus yng Nghymru, yn 2019, yn gofyn iddynt ddod yn Gyflogwyr Cyflog Byw achrededig. Ychwanegodd fod 16 o'r 60 o gyrff cyhoeddus yr ysgrifennodd atynt wedi'u hachredu, ar hyn o bryd.[97]

**87.** Dywedodd Adra bod angen cynnal mwy o waith ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol, er mwyn annog mwy o gyrff yn y sector cyhoeddus i ddod yn gyflogwyr sy'n talu'r cyflog byw gwirioneddol.[98]

**88.** Awgrymodd Cyngor Sir Powys y dylai Llywodraeth Cymru annog busnesau sy'n cael arian cyhoeddus i fabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a safonau cyflogaeth uwch.[99] Codwyd pwynt tebyg gan Cynghrair Sylfaenol Cymru, a ddywedodd fel a ganlyn:

> *There is a role for fair work provisions through living wages and progressive conditions provision in all kinds of public contracts. Essentially, these put a floor under competition and usefully prevent a race to the bottom on wages. There are of course structural revenue side ceilings on the ability of employers to pay higher wages in service sectors like tourism and hospitality.*[100]

**89.** Yn ôl Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, dylid llywio gofynion gwaith teg tuag at alluogi cwmnïau i feithrin y capasiti i gynnig gwell cyflog, yn hytrach nag amddifadu busnesau bach a chanolig. Fe wnaethant nodi mai'r peth pwysig yw bod meithrin cwmnïau yn cyd-fynd ag agenda meithrin gwaith teg o fewn y cwmnïau hynny.[101]

**90.** Pan oedd ein hymchwiliad yn cael ei gynnal, bu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol[102] yn archwilio sut i wella gwaith teg drwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru i fusnesau, ac mae wedi sefydlu gweithgor i ystyried y Contract Economaidd. Yng nghyfarfod y cyngor ym mis Gorffennaf 2024, fe

[96] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynnal Cymru
[97] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Medi 2024, paragraff 100
[98] Tystiolaeth ysgrifenedig, Adra
[99] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir Powys
[100] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Sylfaenol Cymru
[101] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
[102] Llywodraeth Cymru, Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

wnaeth papur gan TUC Cymru alw[103] am ddull tri cham i fwrw ymlaen â hyn– drwy greu meini prawf llinell goch ar gyfer gwariant cyhoeddus; ehangu a safoni'r defnydd o'r Contract Economaidd i gael mynediad at arian cyhoeddus; ac adolygu’r modd y mae pob rhan o Lywodraeth Cymru yn cyflawni gwaith teg. Fodd bynnag, mynegodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru bryderon mewn perthynas â'r cynigion hyn.[104]

**91.** Mae menter Gwaith Teg yn Gyntaf (*Fair Work First*) Llywodraeth yr Alban[105] wedi datblygu meini prawf gwaith teg sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r rheini sy’n derbyn grantiau sector cyhoeddus dewisol – gydag eithriadau cyfyngedig – dalu’r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf a darparu sianeli effeithiol ar gyfer llais gweithwyr, megis cydnabyddiaeth undeb llafur.

**92.** Nododd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet yr ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i wella cyflog ac amodau gwaith, o fewn ei phwerau o dan y setliad datganoli. Mae'r rheini’n cynnwys perthnasoedd partneriaeth gymdeithasol mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig; pŵer cynnull; cymorth ariannol ac ysgogiadau caffael; ac ymyriadau o ran sgiliau. At hynny, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno’r Bil Hawliau Cyflogaeth, sef bil y mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi.[106]

**Ein barn ni**

Yn ystod ein hymchwiliad, rydym wedi clywed tystiolaeth yn gyson am fanteision sefydliadau angori gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio mentrau 'tyfu eich gweithlu eich hun' i recriwtio o gymunedau difreintiedig yn eu hardaloedd lleol, yn enwedig yn y sectorau iechyd a thai. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus datganoledig i ddatblygu dull o ehangu’r mentrau hyn ledled Cymru, gan sicrhau bod ei dull yn caniatáu hyblygrwydd lleol i ddiwallu anghenion cyflogwyr, gweithwyr a chymunedau.

Mae pobl sy’n gweithio mewn llawer o sectorau’r economi sylfaenol yn debygol o gael eu talu’n llai na’r rheini sy’n gweithio mewn rhannau eraill o’r economi, ac yn fwy tebygol o fod wedi’u cyflogi mewn modd ansafonol, megis gwaith dros dro a rhan-amser.

---

[103] Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, Eitem 2 ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ar 10 Gorffennaf 2024: Defnyddio cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i sicrhau gwaith teg
[104] Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2024
[105] Llywodraeth yr Alban, *Fair Work First: guidance - Fair Work First: the approach and what it aims to achieve*
[106] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 285

Amlygodd sefydliadau y gellid gwneud mwy o fewn y sector cyhoeddus datganoledig i fynd i'r afael â hyn, er enghraifft ynghylch talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae'r ffyrdd y dylid bwrw ymlaen â hyn yn cynnwys defnyddio llythyrau cylch gwaith i wella tâl ac amodau o fewn cyrff cyhoeddus, lle bo'n briodol, a gweithio'n fwy eang gyda phartneriaid cymdeithasol i gytuno ar safonau gofynnol cyffredin ar gyfer cyflog ac amodau gwaith ar draws y sector cyhoeddus datganoledig.

Mewn perthynas â sefydliadau economi sylfaenol y sector preifat a'r sector gwirfoddol, dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol weithio'n gyflym, drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, i ddatblygu cynigion i ddefnyddio cymorth ariannol Llywodraeth Cymru fel ysgogiad i gefnogi gwaith teg. At hynny, hoffem weld y cynigion hyn yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion gweithwyr a chyflogwyr, ac i'r cynigion ddechrau trosglwyddo i gamau gweithredu pendant erbyn diwedd 2025. Bydd gwersi i'w dysgu o'r dull Gwaith Teg yn Gyntaf a fabwysiadwyd gan Lywodraeth yr Alban, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried y rheini fel rhan o'i gwaith.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau angori mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig i sicrhau bod dulliau 'tyfu eich gweithlu eich hun' yn cael eu datblygu a'u cynyddu ar draws Cymru, gan ddefnyddio dull hyblyg sy'n diwallu anghenion lleol cyflogwyr a chymunedau.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau canlynol o fewn ei phwerau datganoledig er mwyn gwella cyflog ac amodau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat:

- Defnyddio llythyrau cylch gwaith i osod gofynion ar gyfer cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y rhain i wella cyflog ac amodau gwaith, a gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu a chytuno ar safonau gofynnol cyffredin ar gyfer cyflog ac amodau gwaith yn y sector cyhoeddus datganoledig.
- Gweithio'n gyflym gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu cynigion cymesur i gefnogi gwaith teg drwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru, a dechrau cyflwyno'r rhain erbyn diwedd 2025. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai'r Llywodraeth, hefyd, ystyried y modd y gall dull Gwaith Teg yn Gyntaf (*Fair Work First*) Llywodraeth yr Alban lywio datblygiadau yng Nghymru.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen y Pwyllgor ar y we.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **18 Medi 2024** | **Yr Athro Anne Green,**<br>Prifysgol Birmingham<br>**Harry Thompson, Pennaeth Economi Deg,**<br>Cynnal Cymru<br>**Yr Athro Emeritws Karel Williams,**<br>Prifysgol Manceinion<br>**Y Cynghorydd Matthew Brown, Arweinydd,**<br>Cyngor Dinas Preston<br>**Ceri Cunnington, Swyddog Datblygu,**<br>Cwmni Bro Ffestiniog |
| **16 Hydref 2024** | **Robbie Davison, Cyfarwyddwr,**<br>Can Cook/Well Fed<br>**Edward Morgan, Rheolwr Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant y Grŵp,**<br>Castell Howell<br>**Yr Athro Kevin Morgan,**<br>Prifysgol Caerdydd<br>**Katie Palmer, Rheolwr Rhaglen,**<br>Synnwyr Bwyd Cymru<br>**Iwan Trefor Jones, Prif Weithredwr,**<br>Adra<br>**Gary Newman, Prif Weithredwr,**<br>Woodknowledge Wales<br>**Yr Athro Joanne Patterson,**<br>Prifysgol Caerdydd<br>**Anthony Rees, Rheolwr Rhanbarthol,**<br>Cyfle Building Solutions |
| **14 Tachwedd 2024** | **Ali Abdi, Rheolwr Partneriaethau'r Porth Cymunedol,**<br>Prifysgol Caerdydd |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Sarah Simmonds, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol,**<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>**Rebecca Evans AS Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Aine Gawthorpe, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Economi Sylfaenol a Thrawsnewid Diwydiannol,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Duncan Hamer, Cyfarwyddwr Gweithrediadau – Busnes a Rhanbarthau,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Stephen Layne, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwaith Teg,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **FE 01** | Grŵp Resilience |
| **FE 02** | Cynghrair Sylfaenol Cymru |
| **FE 03** | Yr Athro Anne Green a'r Athro Paul Sissons |
| **FE 04** | Uned Ymchwil Economi Cymru, Prifysgol Caerdydd |
| **FE 05** | Well-Fed |
| **FE 06** | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| **FE 07** | Cyngor Sir Powys |
| **FE 08** | Dr Gary Walpole, Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **FE 09** | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| **FE 10** | Banc Datblygu Cymru |
| **FE 11** | Conffederasiwn GIG Cymru |
| **FE 12** | Cymdeithas Siopau Cyfleustra |
| **FE 13** | Colegau Cymru |
| **FE 14** | Cymru Wledig LPIP, dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth |
| **FE 15** | PLANED |
| **FE 16** | Cynnal Cymru |
| **FE 17** | Cwmpas |
| **FE 18** | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| **FE 19** | Cyngor Gwynedd |
| **FE 20** | Adra |
| **FE 21** | Woodknowledge Wales |
| **FE 22** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl |
|---|
| Llywodraeth Cymru |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Porth Cymunedol, Prifysgol Caerdydd |